


# PEDR FAWR, YMERAWDWR RWSSIA.

PEDR, ymerawdwr Rwssia, yr hwn yn gyffredin a elwir PEDR FAWR, ydoedd un o'r dynion hynotaf mewn hanesyddiaeth ddiweddar. Bydd hanes ei fywyd yn ddyddorol, gan ei fod yn cyfleu esiampl o'r hyn a ellir wneyd er llesiant dynolryw trwy un meddwl anturiaethus a phenderfynol. Ond yn gyntaf, ni a soniwn ychydig am y wlad y bu ei dynged i reoli arni.

Y mae Rwssia yn diriogaeth dra eang yn ngogleddbarth Ewrop ac Asia. Arddengys bob amrywiaeth o hinsawdd; ac y mae, mewn gwirionedd, yn gydgasgliad o amrywiol wledydd, ac arddangosid hi yn yr eilfed ganrif ar bymtheg gan boblogaeth farbaraidd, yn meddu ond ychydig iawn o gymundeb gyda chenedloedd mwy gwareiddiedig y ddaear. Yr oedd ei safle mewn gwybodaeth ac ymarferion cymdeithasol yn dra thebyg i eiddo Twrci ein hoes ni. Ni wyddai y Rwssiaid nemawr neu ddim am y celfyddydau; yr oeddynt yn anghoeth mewn moesgarwch, wedi eu gwisgo mewn dillad afrosgo,—y dynion yn mabwysiadu barfau hirion, yn ol hen ddefodau y cenedloedd Asiaidd, ac nid oedd yn eu plith braidd unrhyw fath o addysg ysgoleigaidd, heblaw eu bod gyda hyny yn dra choelgrefyddol. Yr oedd hyd yn nod eu hoffeiriaid yn ddwfn mewn anwybodaeth a choelgrefydd.

Ar y pryd y cyfeiriwn ato—oddeutu canol yr eilfed ganrif ar bymtheg, neu oddeutu yr adeg pan yr oedd y gwrthryfel yn cymeryd lle yn Lloegr, dan arweiniad Oliver Cromwell—gallesid rhanu pobl Rwssia i bedwar dosparth. 1. Y *Boyards*, neu y bendefigaeth, y rhai a gyfrifent eu cyfoeth yn ol nifer y caethddeiliaid neu y caethion a fodolent ar eu hetifeddiaethau—y caethion truain hyny, y mwyaf lluosog yn ddiau o'r holl gorph gwladwriaethol. 2. Y *Milwyr*—dosbarth terfysglyd, y rhai y cawn alw sylw atynt eto, a'r rhai a ymarferent y dulliau mwyaf anfad i dywallt gwaed; y rhai hyn oeddynt yn lluosog iawn. 3. Yr *Offeiriaid*, ac yr oedd y grefydd

sefydledig yn fath o gydffurfiad âg Eglwys Groeg, fel ag y mae heddyw. 4. Y *Caethddeiliaid* (Serfs), nid yn gaethion yn yr un ystyr ag y byddai caethion yn America, ond ar y cyfan mor waethed eu sefyllfa a'r rhai hyny.

Yr oedd y deyrn-benaeth yn cael ei chyfrif yn uwchraddol i bob awdurdod, ond Duw ei hun—ewyllys y penadur oedd y gyfraith. Os pallai epil gwrywol yr hen benaduriaid, fel y bu yn y flwyddyn 1613, ac i amryw ymhonwyr ymddangos am y goron, byddai i'r prif Gynghor—y Boyards—benderfynu pwy a fyddai yn deyrn. Ar yr adeg hono—pan yr oedd pethau felly—penderfynodd y cynghor hwn mai dyn ieuangc o'r enw Michael Romanow oedd i fod yn ymerawdwr. Yr oedd efe yn fab i foneddwr cadarn, ac yn dal perthynas, ar ochr y fam, â'r hen linell. Yr oedd y tad yn garcharor ar y pryd gan y Poliaid, gyda pha rai yr oedd y Rwssiaid yn rhyfela. Trwy gyfnewid carcharorion, daeth yr hen ŵr adref, a bernir iddo lywodraethu, tra fu byw, yn enw ei fab. Wedi marw Michael olynwyd ef gan ei fab, Alexis Michaelowitz, yr hwn a esgynodd yr orsedd trwy olyniaeth treftadol.

Alexis oedd tad Pedr Fawr, ac yr oedd yn ddyn goleuedig. Ymddengys er hyny mai ychydig o gefnogaeth a gafodd i ddwyn diwygiad i Rwssia. Bu farw yn sydyn yn y flwyddyn 1677, yn 46 mlwydd oed. Buasai ddwywaith yn briod; ac o'i wraig gyntaf cafodd ddau fab a phedair neu chwech o ferched. O'i ail wraig, yr hon a fu fyw ar ei ol, efe a adawodd PEDR FAWR a'r Dywysoges Nathalia. Yn gymaint a bod Alexis wedi gorchymyn am i Theodore, ei fab hynaf, esgyn yr orsedd ar ei ol ef, oddeutu blwyddyn cyn ei farw, dyna a fu; a choronwyd ef yn bymtheg mlwydd oed. Bu farw yn fuan, modd bynag, a'r un modd ei frawd Ioan, yr hwn nid yn unig oedd braidd yn ddall a byddar, ond hefyd yn ddarostyngedig i ddirdyniadau gewynol.

PEDR FAWR, gan hyny, oedd yr etifedd nesaf i goron ymerodrol Rwssia. Ganwyd ef yn Moscow ar y 30ain o fis Mai, yn y flwyddyn 1672. Nid oedd Pedr ond pedair blwydd oed ar adeg marwolaeth ei dad, a bu am ysbaid heb i un sylw gael ei wneyd o hono. Ar farwolaeth ei frawd Theodore esgynodd Pedr yr orsedd. Nid oedd y pryd hyn ond naw mlwydd oed, ac yr oedd un o'i chwiorydd, Sophia, wedi rhagweled ei dalent, ac yn benderfynol o gymeryd meddiant o'r orsedd ei hunan. Yn y flwyddyn 1689, priodwyd Pedr gydag un o'r enw Eudoxia Federowna Lapuchin, trwy ddylanwad ei fam, ac felly yr achubwyd ef o ddwylaw Sophia, yr hon oedd yn amcanu ei lygru ef; ond rhoddodd yr amgylchiad yma afael newydd iddo yn serch y bobl. Yr oedd Sophia wedi ffurfio bradwriaeth i'w ladd ef a'i wraig, a'i fam a chwaer arall, ar ddiwrnod y briodas, er mwyn cael meddiant o'r orsedd ei hunan; ond trwy ffyddlondeb a diysgogrwydd ei gyfeillion, efe a ddiangodd rhag y brad, ac a gymerodd nawdd yn mynachlog y Drindod. Y canlyniad o hyn fu rhyfel cartrefol arswydus; ar ol llawer o dywallt gwaed terfynwyd trwy i Pedr fuddugoliaethu, ac i Sophia gael ei hanfon i fynachlog, a'i phleidwyr eu halltudio i Siberia. Wedi hyn aeth i mewn i Moscow, ac yn ngwydd yr holl bobl efe a gofleidiodd Ioan, yr hwn a adawodd ei holl awdurdod yn llaw ei frawd Pedr, am mai efe oedd y mwyaf galluog. O'r adeg hon y dechreuodd lywodraethu dan yr enw

PEDR I., NEU PEDR FAWR,

er fod enw yr analluog Ioan yn cael ei gyplysu gydag ef fel cyd-ymerawdwr. Ymddengys i'w chwaer Sophia wneyd ei goreu er ei hudo i bob gormodedd a gloddestwaith, ac hefyd i'w gadw mewn anwybodaeth dybryd, nes yr oedd yn ddeuddeng mlwydd oed. Nis gellir tybied iddo ddiangc oddiar holl ddichellion ei chwaer; ond y mae yn wirionedd am dano, fel y dywedodd un, "Ei rinweddau oeddynt oll yn eiddo ei hun, ond ei golliadau a berthynent i'w addysg a'i wlad." Yn foreu efe a arddangosodd feddylfryd mawr—ystyriaeth o'i anwybodaeth ei hun, ynghyda'r syched mwyaf awyddus am wybodaeth. Perthynai iddo hefyd y gallu hwnw nas gellir ei wahanu oddiwrth lywodraethwr diledryw—sef adnabyddiaeth o'r talentau hyny a'u galluogent ef i gario allan ei gynlluniau. Er engraifft o hyn, un diwrnod pan oedd yn ciniawa gyda llysgenad yr Iseldiroedd yn Moscow, tarawyd ef gan foneddigeidd-dra ac ymddiddanion yr ysgrifenydd cyfrinachol, a chanfu ar unwaith uwchraddoldeb ei feddwl. Genoiad ieuangc oedd hwn, o'r enw Le Fort, yr hwn a ddygasid i fyny gyda golwg ar fasnach; ond trwy duedd naturiol at orchwylion milwrol, a hudasid nes llwyr ymroddi i'r ganghen hono o addysgiaeth.

PEDR DAN ADDYSGIAETH.

Ni pherthyna i ni groniclo pa fodd y daeth Le Fort i Moscow, ond y mae pob sicrwydd mai efe oedd dysgawdwr Pedr Fawr yn y ddinas hono. Yr oedd Le Fort

wedi cael y fantais o addysg Ewropeaidd, a meddai ar gyfran helaeth o sylwgarwch ar ffeithiau. Efe a esponiodd i Bedr Fawr y fath ragoriaeth rhyfeddol a feddai milwyr hyfforddiedig a dysgybledig Ewrop ar heidiau anffurfiol Rwssia; ac ar hyn o bryd yr adnabu Pedr y cynllun o ddifodi y Strelitsiaid, sef milwyr y brif ddinas, y rhai a fuasent bob amser mor flaenllaw i osod i fyny a diorseddu breninoedd. Cadwodd ei fwriad yn ddirgel ar hyny o bryd, ond ni chollodd ei olwg arno o gwbl.

Yn fuan wedi i'r ymerawdwr ffurfio cyfeillgarwch â Le Fort, daeth i gydnabyddiaeth â pherson arall, enw yr hwn oedd Mensikoff, dyn ieuangc o'r tarddiad mwyaf israddol, ond yr hwn yn y diwedd a gafodd fwy o ddylanwad yn yr Ymerodraeth Rwssiaidd na Le Fort ei hunan. Amcanai hwn enill ei fywioliaeth trwy werthu teisenau a phasteiod hyd heolydd Moscow, gan eu hargymhell gyda math o gân o'i gyfansoddiad ei hun. Tra yr ydoedd yn myned yn mlaen fel hyn tynodd sylw Le Fort, yr hwn a ymddiddanodd âg ef, a thrwy iddo gael ei foddhau gyda'i ffraethineb parod, efe a'i dygodd at yr ymerawdwr. Rhaid ei fod wedi gwneyd argraff cyffelyb ar Pedr, oblegyd y mae son am dano yn fuan wedi hyny fel un o'i weision personol.

Trwy anogaeth Le Fort ffurfiodd Pedr gatrawd ar y cynllun Ewropaidd, ar ba un y gwnaeth efe y blaenaf yn filwriad, tra yr ymrestrodd ei hunan fel tabyrddwr *(drummer)*, gan mor awyddus ydoedd i roddi gwers o ostyngeiddrwydd i'w ddeiliaid. Yn wir, fel y cawn weled, ei amcan bob amser oedd anelu at wraidd pob gwybodaeth, a thrwyadl feistroli yr hyn a gymerai mewn llaw; a gwyddai nas gallai ddyfod i wybodaeth mwy trylwyr am faterion milwraidd na myned trwy holl raddau yr alwedigaeth hono.

Oddeutu yr un amser efe a ddechreuodd adeiladu amryw longau, gyda pha rai y bwriadai hwylio i lawr yr afon Don, ac ymosod ar Azoph, yr hwn le oedd y pryd hyny yn meddiant y Tyrciaid. Wrth edrych ar ddarlunlen o Ewrop gwelir pwysigrwyodd y lle hwn, am ei fod mewn gwirionedd fel allwedd i'r Môr Du; ac nid oes dim yn profi athrylith Pedr Fawr yn fwy na'i ystyriaeth o bwysigrwydd gallu morawl, ac anghenion ei ymerodraeth eang. Wedi ei gylchynu gan elynion—oblegyd yn y dyddiau hyny yr oedd yr holl genedloedd cymydogaethol yn gyfryw—y Môr Du yn meddiant y Tyrciaid, a'r Môr Llychlyn yn meddiant y Swediaid, teimlai nas gallai ei wlad fyth fod yn fawr nes y dygid rhai porthladdoedd oddiar y galluoedd hyny. Yr oedd ymerawdwyr blaenorol wedi rhoddi allan orchymynion yn gwahardd i bawb drafaelio o'r tu allan i derfynau yr ymerodraeth; ond gwelai Pedr mai yr anhawsder mawr oedd, nid cadw pobl i mewn, ond myned allan o honi; a gwyddai nad oedd dim gwell llwybr at oleuo yr anwybodus, a symud ymaith ragfarnau, na chefnogi dyfodiad dyeithriaid i'r deyrnas, a rhoddi pob rhwyddineb i'w ddeiliaid yntau dramwyo trwy wledydd ereill. Byddem yr olaf o bawb i ganmol penaethiaid nad oeddynt ond arwyr milwrol neu goncwerwyr yn unig, ond y mae yn amhosibl peidio edmygu yr ymerawdwr ieuangc hwn yn y cyfnod yma o'i yrfa. Yr oedd ymerodraeth Twrci y pryd hyny y fwyaf galluog yn y byd. Ychydig flynyddoedd cyn hyny yr oedd Vienna wedi cael ei gwarchae gan 200,000 o Dyrciaid; ac yr oedd Sweden yn wlad llawer mwy gwareiddiedig, yn meddu byddinoedd dysgybledig—ac yn fuan i gael Siarl XII., y penadur mwyaf rhyfelgar yn Ewrop, i'w blaenori. Ond nid oddiar unrhyw gariad at ryfel y bwriadai Pedr oresgyn terfynau ei gymydogion, ond fel *moddion* angenrheidiol er cyrhaedd *dybenion* mawr. Nis gallai wareiddio ei bobl heb borthladdoedd; felly porthladdoedd a fynai efe gael.

Dywedir fod Pedr Fawr, pan yn blentyn, yn meddu arswyd rhyfedd at ddwfr; yn gymaint felly fel y byddai i groesi afon ei daflu i ddirdyniadau. Bernir mai y ffaith, ddarfod iddo gael diangfa gyfyng rhag boddi pan oedd oddeutu pum' mlwydd oed, a'r dychryn a gafodd ar yr achlysur hwnw, oedd yr achos o hyny; ond o'n rhan ein hunain, nid oes genym ond ychydig ffydd yn y grediniaeth fod ar yr ymerawdwr ofn dwfr. Yr oedd drwy ei holl fywyd yn ddarostyngedig i ffitiau; ond gan fod ei frodyr felly hefyd, y mae yn dra thebyg fod y peth yn y teulu. Pa un bynag am hyny, os bu y fath beth yn bodoli, rhaid ei fod wedi ei orchfygu yn fuan; canys ymddengys y byddai, pan yn fachgen, yn ymarfer â rhwyfo mewn cychyn bychan ar yr afon Yansa, yr hon a red trwy Moscow. Hyd yn nod cyn iddo erioed weled y cefnfor, ac yn preswylio 500 o filldiroedd oddiwrth y môr, deallai anghenion ei ymerodraeth eang, a phenderfynodd y byddai raid iddi ddyfod yn allu morwrol.

O ganlyniad, yn y flwyddyn 1695, efe a hwyliodd i lawr yr afon Don, ac a ymosododd ar Azoph; ond bu yn aflwyddiannus y waith gyntaf, yn benaf oherwydd bradwriaeth un o'i gyflegrwyr, o'r enw Jacob, yr hwn a hoeliodd gyflegrau y Rwssiaid, ac a drôdd yn Fahometan, gan fyned drosodd at y Tyrciaid, i amddiffyn y lle yn

erbyn ei feistr blaenorol. Nid oedd Pedr, er hyny, yn un a gymerai ei ddigaloni gan un methiant. Adnewyddodd ei ymosodiad yn y flwyddyn ganlynol; a chan fod marwolaeth ei frawd Ioan erbyn hyn wedi taflu holl adnoddau arianol yr ymerodraeth i'w ddwylaw, yr oedd ganddo foddion i gyfnerthu a darparu ar gyfer ei alluoedd mewn modd effeithiol. Yr oedd y llongborth newydd yn Woronetz, ar yr afon Don, wedi cynyrchu iddo, erbyn haf 1696, lynges o 25 o rwyflongau, a phedair o longau tân, gyda pha rai y gorchfygodd efe y llynges Dyrcaidd o'r tu allan i Azoph. Trwy fod pob cymhorth o'r môr wedi ei gau allan, cariodd yn mlaen y gwarchae gyda bywiogrwydd adnewyddol, ac yn mhen dau fis, yr oedd y Rwssiaid yn Azoph. I ddyogelu meddiant o'r allwedd yma i'r Môr Du, efe a eangodd ac a gadarnhaodd yr amddiffynfeydd, adeiladodd borthladd digon mawr i dderbyn llongau trymion, a rhoddodd orchymyn am i bymtheg a deugain o longau rhyfel gael eu hadeiladu, gan gadw mewn golwg ar yr un pryd y cynllun o wneyd camlas er cysylltu yr afon Don gyda'r Wolga.

Flwyddyn neu ddwy cyn hyny yr oedd Pedr wedi ysgaru â'i wraig, yr hon a briodasai pan yn fachgen—gwraig a ddewisasid iddo, ac nid cydmar o'i ddewisiad ei hun. Rhoddir amryw resymau dros ei waith yn gwneyd hyny; ond ymddengys mai y gwir reswm oedd, ei bod yn ddynes o ddealltwriaeth gwan, yn gaethes i goelgrefydd a rhagfarn, yn offeryn yn nwylaw yr offeiriaid, ac o ganlyniad yn sefyll ar ffordd pob diwygiad; canys yr offeiriaid, gan wybod y darfyddai eu gallu o flaen goleuni gwybodaeth, ni chollent un cyfleustra i ddrwgliwio yr ymerawdwr ac i ddyrysu ei amcanion. Diau i Pedr gamsynio wrth adael ei fab Alexis dan ei gofal, fel y profwyd wedi hyny; ond i'n meddwl ni profai dynerwch ac ystyriaeth at y fam, ac arddangosai galon fwy teimladwy nag y mae haneswyr yn gyffredin yn addef ei fod yn ei meddu.

## PEDR FAWR AR EI DEITHIAU.

Wedi sicrhau porthladd dymunol, a chael ymadael â gwraig nad oedd yn addas iddo, y gwaith nesaf wnaeth Pedr oedd anfon nifer o Rwssiaid ieuangc i orphen eu haddysg yn Italy, Germany, a Holland. Hyd yma yr oedd Rwssia heb un cynrychiolydd swyddogol yn unrhyw lys yn Ewrop; ond anfonodd yr ymerawdwr genadwriaeth ysplenydd i Holland, y prif ddynion yn mha un oedd Le Fort a Menzikoff, a Phedr ei hun yn eu canlyn yn answyddogol. Y mae y rhwyddineb a'r dyogelwch â pha un yr ymadawodd â'i ymerodraeth eangfawr yn dangos mor gadarn yr ydoedd wedi sefydlu ei awdurdod. Wrth fyned trwy Riga, ar ei ffordd i Holland, ceisiodd ganiatâd i weled yr amddiffynfeydd, ond gwrthodwyd hyny gan y llywodraethwr Swedaidd—dirmyg y penderfynodd Pedr ei gospi yn y man. Wrth fyned trwy Prwssia, derbyniwyd ef gan y brenin gyda pharch mawr, a chyda holl fawredd ac ysplenydd-dra breninol. Yma ymwahanodd Pedr oddiwrth y genadwriaeth, ac a aeth i Holland, gan drafaelio yn anadnabyddus, ac mor gyflym ag oedd yn bosibl. Llogodd ystafell fechan yn y *dockyard*, wedi cyrhaedd Amsterdam bymtheg niwrnod o flaen y genadwriaeth. Yn fuan wedi hyny ymwisgodd fel cadben llong Isellmynaidd, ac yn y dillad hyny aeth i Saardam, lle yr ymgyflogodd fel saer llongau i weithio wrth y dydd, dan yr enw Pedr Michaeloff, gydag un o'r enw Calf. Yma y preswyliodd mewn cut pren am saith wythnos, yn gwneyd ei wely ei hun, ac yn parotoi ei fwyd ei hun, tra yr ymohebai gyda'i weinidogion gartef, gan weithio ar yr un pryd fel saer llongau.

Dyma y dull a gymerodd Pedr Fawr i ddysgu llong-saerniaeth; mor ewyllysgar i weithio fel saer llongau i'r pwrpas hwnw ag y buasai yn gweithredu fel tabyrddwr i ddyben arall yn ei gatrawd gyntefig. Gwir a ddywed un o'i fywgraffwyr boreuaf, "fod llawer o freninoedd wedi rhoi heibio eu hawdurdod wedi blino ar ofalon a llafur llywodraethu, ond efe yn unig a adawodd ei deyrnas er astudio y gelfyddyd o'i llywodraethu." Y fath ddarlun o Pedr Fawr a all meddwl ystyriol dynu ar yr adeg hon; a'r fath gyfarfyddiad a raid fod hwnw a gymerodd le rhyngddo ef a'r Duc Marlborough yn ddamweiniol yn Saardam! Oblegyd yr oedd y pendefig Seisonig yn gwybod yn dda ei fod yn canfod, yn y gweithiwr "Pedr Michaeloff," berchenog diymwad ar chwarter o'r belen ddaearol, yn arglwydd a feddai allu ar fywyd ac angeu ei holl breswylwyr; yn fyr, ymerawdwr Rwssia. Yr oedd Pedr ar y pryd, 1697, yn bump ar hugain oed, a dysgrifir ef fel dyn mawr nerthol, gyda phrydwedd hyf a rheolaidd, gwallt gloywddu yn disgyn yn fodrwyau o gylch ei wddf, a llygad du, treiddgar, yn gwibio o'r naill wrthddrych i'r llall gyda chyflymder melltenol. Ymwisgai ar yr achlysur hwnw mewn crys o wlanen goch, llodrau a het llongwr, ac eisteddai, gyda neddai yn ei law, ar ddernyn afrywiog o bren a orweddai ar lawr. Ymddiddanai, gyda difrifwch mawr, â rhyw ddyeithriaid, a'i wyneb yn arddangos, trwy ei amlygiadau cryfion ac amrywiol, y dyddordeb a gymerai yn yr ymddiddan. Y duc

milwrol—onid yw yn hawdd dychymygu y gwahaniaeth yn eu gwisgoedd a'u nodweddiad?—a ddynesodd ato, ac a ddechreuodd ymddiddan gydag ef trwy wneyd rhai sylwadau ar y gelfyddyd o adeiladu llongau. Tra yr oeddynt yn ymddiddan, daeth dyn dyeithr atynt, a chanddo lythyr mawr yn ei law; y gweithiwr a neidiodd ar ei draed, a chan gymeryd y llythyr, efe a dorodd y seliau, ac a'i darllenodd yn awyddus, tra y rhodiai Marlborough falch i ffwrdd heb gael un sylw pellach!

Pwy ddichon dyweyd beth oedd cynwysiad y bryslythyr hwnw! Dichon fod bywyd neu angeu, rhyddid neu gaethiwed, clod neu gyfoeth un neu fwy o'i ddeiliaid yn crogi ar air y "gweithiwr tramor" hwnw. Fel hyn, tra yn trin y cwmpas a'r neddai yn Saardam, y dygwyd iddo y newydd fod ei gydymgeisydd Augustus, etholydd Saxoni a thywysog Conti, wedi ei ddewis i deyrngadair wag Poland; a Phedr a addawodd ei gynorthwyo gyda 30,000 o filwyr.

Yn y cyfamser yr oedd ei fyddin yn enill buddugoliaethau o'r newydd tuag Azoph; ond yr oedd gan Pedr uchelgais ardderchocach na dymuniad am ogoniant milwrol. Parhaodd i ymwellhau mewn gwahanol gelfyddydau, gan fyned yn fynych o Saardam i Amsterdam i wrando darlithiau ar ddifyniaeth; a gwnaeth ei hun yn alluog i gyflawni amryw weithrediadau mewn llaw-feddygaeth. Efe hefyd a ddysgodd yr iaith Isellmynaidd, ac a aeth gryn ffordd mewn mesuroniaeth, peiriannaeth wladol, a'r wyddor o wneyd amddiffynfeydd, heblaw ymweled â phob sefydliad llenyddol, elusenol, a gwyddonol, a'r melinau papur a'r melinau llifio, a phob sefydliadau llaw-weithyddol, y rhai a archwiliai yn ofalus, gyda'r bwriad o sefydlu rhai cyffelyb yn ei ymerodraeth ei hun. "Beth yw hwna?" fyddai ei ofyniad gwastadol pan welai rywbeth newydd; ac ni orphwysai ei feddwl am foment nes cael esboniad arno. Gallwn ddychymygu syndod yr Isellmyniaid tawel a swrthlyd at y tywysog egniol hwn, yr hwn, er yn dewis gweithio fel saer llongau, ni chymerai unrhyw drafferth i ddirgelu ei urddas; yn teithio hyd y wlad gyda bywiogrwydd meddwl a chorph hefyd ag oedd iddynt hwy yn annirnadwy, ac yn ceisio gwybodaeth gyda mwy o awydd a gwresogrwydd nag y darfu i neb tywysogion ereill hyd yn nod chwilio am bleserau.

Treuliodd Pedr Fawr oddeutu naw mis yn yr Iseldiroedd, yn ystod pa amser yr adeiladwyd llong ryfel o driugain gwn yn ol ei gynllun ef, ac yn yr hon y gweithiodd gryn lawer â'i ddwylaw ei hun. Dywedir fod y llestr hon yn engraifft ardderchog o long-saerniaeth—anfonodd hi i borthladd Archangel, canys hyd yma nid oedd ganddo borthladd yn Môr Llychlyn.

## PEDR FAWR YN LLOEGR.

Croesodd Pedr drosodd i Loegr, lle y derbyniwyd ef yn groesawgar gan Gwilym III., yr hwn a benododd Ardalydd Caerfyrddin i weinyddu arno, ac efe a ymroddodd i wasanaethu yr ymerawdwr. Prif amcan Pedr oedd archwilio llyngesbyrth a sefydliadau morawl Lloegr, megys ag y gwnaethai yn Holland; ac er ei fod yma yn cadw ei radd o'r golwg, ni ddarfu iddo weithio yma fel gweithiwr cyffredin; eto, yn ol un hen ysgrifenydd, "byddai iddo yn fynych gymeryd i fyny yr arfau, a gweithio gyda hwynt; a mynych ymddiddanai â'r adeiladwyr, y rhai a ddangosent iddo eu cynlluniau, a'r dull o osod i lawr, ar gyfartaledd, unrhyw long neu lestr." Ar y cyntaf lletyai yn York Buildings, tra yn Llundain; a dywedir fod y tŷ olaf, agosaf i'r afon, ar yr ochr ddwyreiniol i Heol Buckingham, gerllaw y Strand, wedi cael ei drigianu ganddo; ond wedi hyny, er mwyn cael bod yn nês i'r môr, efe a breswyliodd mewn mewn tŷ perthynol i'r hynod John Evelyn yn Deptford, fel y crybwylla hwnw yn ei ddyddlyfr, dan y dyddiad Ionawr 30, 1698.

"Ymerawdwr Muscofi, wedi dyfod i Loegr, a chanddo feddwl am weled adeiladu llongau, a logodd fy nhŷ i, Saye's Court, gan ei wneyd yn llys a phalas, wedi ei ddodrefnu o'r newydd gan y brenin." Ac oddeutu yr amser yma ysgrifenai gwas Evelyn at ei feistr fel hyn:—"Y mae llonaid y tŷ o bobl, ac y mae yn ddigon budr. Cysga yr ymerawdwr yn yr ystafell nesaf i'ch llyfrgell, a chiniawa yn y parlwr agosaf i'ch myfyrgell. Y mae yn ciniawa am ddeg o'r gloch, ac am chwech yn y nos; anaml y mae adref am ddiwrnod cyfan; mae yn bur fynych yn *yard* y brenin, neu ar y dwfr, wedi ymddilladu mewn amryw wisgoedd. Dysgwylir y brenin yma heddyw: y mae y parlwr goreu yn lled lân i'w groesawu ef. Y mae y brenin yn talu am y cwbl a gaiff." Y fath gipolwg a gawn ar yr hen amser gynt trwy chwedleuaeth o'r fath yma!

Er na ddarfu i'r ymerawdwr gario allan ei awyddfryd mor bell yn y wlad hon ag i weithio fel saer llongau, eto yr oedd mor awyddus am hwylio a thrin cychod yma ag yn Holland. Yr oedd Syr Antoni Deane ac Ardalydd Caerfyrddin gydag ef bob dydd ar y Tafwys, weithiau yn hwylio mewn pleser-longau, bryd arall yn rhwyfo mewn

cychod, yn mhob o'r ddau ymarferiad yma dywedir fod yr ymerawdwr a'r ardalydd yn rhagori. Bwrdd y Llynges a dderbyniodd orchymyn oddiwrth y llywodraeth i logi dwy long, i fod at orchymyn yr ymerawdwr pa bryd bynag y tybiai yn briodol hwylio ar y Tafwys, er ymarfer mewn llongwriaeth. Yn ychwanegol at y rhai hyn, y brenin a'i hanrhegodd â'r llong "Royal Transport," gyda gorchymyn am i'r cyfryw gyfnewidiadau a chyfaddasiadau gael eu gwneyd ynddi ag a ddymunid gan ei fawrhydi yr ymerawdwr; ac hefyd i newid ei hwylbreni, ei rhaffau, ei hwyliau, &c., yn y fath fodd ag y barnai ef yn briodol, er gwellhau ei chymwysderau hwylio. Ond ei hyfrydwch mawr oedd cael myned i gwch byrddiedig perthynol i'r llyngesborth, a chymeryd dim ond Menzikoff, a thri neu bedwar ereill o'i ddylynwyr, i weithio gyda hwy, ac yntau wrth y llyw. Trwy ymarferyd fel hyn dywedai y byddai yn alluog i'w dysgu i hwylio llongau wedi iddynt gyrhaedd adref.

Tra yn Lloegr, trôdd Pedr ei sylw at beiriannaeth, a derbyniodd radd doethawr o brifysgol Rhydychain. Cymerodd i'w wasanaeth uwchlaw pum' cant o bersonau—swyddogion, peirianwyr, cyflegrwyr, llaw-feddygon, &c.; ac yn neillduol, un fintai o beirianwyr a gweithwyr medrus, y rhai a ddanfonodd efe i Rwssia, i'r dyben o gario allan gynllun mawr a ffurfiasid ganddo yn ei feddwl pell-ganfyddol. Y gwaith mawr yma oedd agor cymundeb rhwng yr afonydd Volga a Don â'r Môr Caspiaidd. Gellir cael meddylddrych am yr anwybodaeth a'r goelgrefydd yr oedd gan Pedr i ymwneyd â hwy, wrth feddwl fod y cynllun ardderchog hwn wedi codi cri yn mhlith yr offeiriaid a'r pendefigion, y rhai a ddywedent "ei fod yn annuwioldeb troi y ffrydiau un ffordd, tra yr oedd Rhagluniaeth wedi bwriadu iddynt fyned ffordd arall." Ferguson, yr enwog beiriannydd a mesuronwr, a aeth i'w wasanaeth, ac efe a ddygodd gyntaf rifyddiaeth i ymarferiad yn nhrysorlys Rwssia. Cyn hyny, cyfrifent yn ol dull y Tartariaid, gyda pheleni yn hongian ar wyfren.

Cyn ymadael â Lloegr, wrth ffarwelio â'r brenin William, anrhegodd ef â pherl o werth £10,000, gan ei dynu o boced ei wasgod, "wedi ei lapio mewn darn o bapur llwyd." Anrheg freninol ydoedd, er nad oedd yn cael ei chyflwyno gyda seremoni breninol; ond yr oedd Pedr yn erbyn ffurfiau a seremoniau, ac yr oedd Gwilym III. yn ddyn llawer rhy gall i ddal sylw ar beth felly. Mewn ad-daliad hefyd am y gwasanaeth a wnaethai Ardalydd Caerfyrddin iddo, efe a roddodd i'r pendefig hwnw yr hawl i drwyddedu pob casgen o dybacco a ddeuai i Rwssia, ac i godi pum' swllt am bob trwydded. Rhaid fod hyn yn dwyn cyllid mawr i mewn, oblegyd prynwyd yr hawl i ganiatâu y trwyddedau gan gwmni Seisonig am £15,000.

## PEDR YN DYCHWELYD ADREF—GWRTHRYFEL YN MOSCOW—NARVA.

Cychwynodd Pedr o Loegr yn niwedd y flwyddyn 1698, ac aeth drosodd i Holland. O Holland aeth i Vienna, er ymweled âg ymerawdwr Germany, yr hwn yn ddiddadl oedd yn falch o'i weled, er mwyn ei sicrhau fel cynorthwywr yn erbyn ei hen elynion y Tyrciaid. Derbyniwyd ef gyda rhwysg mawr; ond yn nghanol y llawenydd a ddynodai ei ddyfodiad, cyrhaeddodd newydd ato fod gwrthryfel wedi cymeryd lle yn Moscow, ond ei fod wedi ei ddarostwng trwy egni a phenderfyniad y Cadfridog Gordon, yr hwn a adawsai yno fel penllywydd. Parodd y newydd yma iddo roddi i fyny y bwriad o ymweled âg Itali, yr hyn a fwriadasai wneyd; a chan deithio gyda'i gyflymdra arferol, efe a brysurodd i'w brifddinas. Cafwyd allan yn fuan fod y Strelitziaid (milwyr y brifddinas,) wedi cael eu hanog i wrthryfel gan y Dywysoges Sophia, yr hon, gan gymeryd mantais ar absenoldeb ei brawd, a obeithiai feddiannu y brif awdurdod. Amryw o'r prif wrthryfelwyr a grogwyd yn ngolwg ffenestri Sophia, a chollfarnwyd ereill i farwolaeth greulonach, ac a dorwyd ar yr olwyn. Y mae haneswyr yn son llawer am greulondeb Pedr ar yr achlysur hwn, ond y mae yn dra thebyg fod hyny, fel llawer o bethau ereill, wedi eu mwyhau yn fawr gan y cyfryw.

Yn 1699, cafodd Pedr golled drom drwy farwolaeth ei gyfaill a'i gynghorwr, y Cadfridog Le Fort, ar gynhebrwng yr hwn y pentyrodd anrhydedd cyffelyb i'r hyn a dderbyniasai breninoedd blaenorol. Yr oedd ei hunan yn yr orymdaith, yn cerdded ar ol y cadbeniaid fel isgadben, canys dyna y swydd a ddaliai yn nghatrawd Le Fort. Oddeutu yr amser yma hefyd y collodd efe ei ffyddlon gadfridog, Gordon, galluoedd milwrol yr hwn a fuasai mor wasanaethgar iddo yn adffurfiad ei fyddin. Menzikoff, yr hwn a godasai o ddinodedd trwy ei dalentau a'i alluoedd, a ddaeth yn awr yn brif gyfaill a chynghorwr Pedr. Y Strelitziaid—yr offerynau hyny o wrthryfel a therfysg—oeddynt erbyn hyn wedi cael eu difodi, a'u lle wedi ei gymeryd gan saith ar hugain o gatrodau newyddion o wŷr traed, a dwy o feirchfilwyr, y rhai, yn ystod tri mis, a ddygasid dan ddysgyblaeth ragorol. Heblaw ailffurfio y fyddin

Pedr yn awr a drôdd ei feddwl, gyda bywiogrwydd dihafal, at reoleiddiad mewnol ei ymerodraeth, yr hon a ddaeth yn raddol yn fath o greadigaeth newydd.

Y pryd hyn trôdd yr ymerawdwr ei sylw at ddiwygio dillad anghyfleus ei bobl. I wneyd hyn, dechreuodd trwy osod treth ar farfau hirion a pheisiau; a chrogid cynlluniau o gotiau clòs am y corph yn y lleoedd cyhoeddus. Ond y fath oedd eu hymlyniad wrth eu hen arferion, fel y cynyddodd ei gyllid, yn lle bod eu dillad yn newid. Y mae ei symudiad nesaf braidd yn ddigrifol. Gosododd deilwriaid ac eillwyr wrth bob un o byrth Moscow, dyledswydd pa rai oedd tori barfau pob dynion a ddelent i mewn, a thori eu peisiau oddiamgylch. Fel siampl o ymlyniad y bobl wrth eu hen arferion, adroddir yr hanesyn canlynol. Ar un achlysur cyfarfyddodd yr ymerawdwr â hen ddyn yn dyfod oddiwrth yr eilliwr, a dywedodd wrtho ei fod yn edrych fel dyn ieuangc ar ol cael tori ei farf; ar hyn rhoddodd yr hen ŵr ei law yn ei fynwes, a thynodd allan y farf a dorasid ymaith, gan hysbysu yr ymerawdwr y byddai iddo ei chadw i'r dyben iddi gael ei gosod yn ei arch, fel y byddai iddo ei dangos i St. Nicholas yn y byd arall!

Oddeutu yr amser yma dechreuodd yr ymerawdwr symud dechreuad y flwyddyn o'r dydd cyntaf o Fedi i'r dydd cyntaf o Ionawr—gorchwyliaeth a barodd dramgwydd mawr i'r bobl, y rhai a dybient ei fod yn ymgymeryd â newid cŵrs yr haul. Yn nesaf sefydlodd gymdeithasau er cefnogi cymundeb cymdeithasol rhwng y ddwy ystlen, fel y gallai pobl gael mantais i ffurfio priodasau cyfaddas. Cyn hyn yr oedd gwragedd yn cael eu ceisio yn ol dull Asia—y briodasferch yn cael ei rhoddi ymaith neu ei gwerthu gan ei rhieni, heb gael ei gweled yn flaenorol gan y priodfab bwriadedig. A thra yr oedd y diwygiadau cymdeithasol a moesol hyn yn myned yn mlaen, yr oedd Pedr yn adeiladu llynges ar yr afon Don, yn cysylltu yr afon hono â'r Volga, ac yn cynllunio i ddwyn tiriogaeth arforawl oddiar genedl ryfelgar, ar ba un y bwriadai adeiladu prifddinas newydd—St. Petersburg.

Hyd yn hyn, Moscow oedd prifddinas Rwssia, yr hon, gan ei bod yn nghanol y tir, nid oedd yn gyfleus at fasnach forawl. Gyda golwg ar wneyd i fyny y diffyg yma, penododd Pedr safle ei brif ddinas newydd ar aber yr afon Neva, yn gyfagos i Forgaingc Ffinland. Ond nid ei eiddo ef oedd y tir yn y fan hon; perthynai i Sweden. Ei amcan gan hyny oedd gafael mewn un neu ddwy o daleithiau, eu hychwanegu at Rwssia, ac yna dechreu adeiladu ei dref. I'r dyben o gyrhaedd ei amcan yn y peth hwn, yn y flwyddyn 1700, efe a ffurfiodd undeb gwladol gydag Augustus, brenin Poland, ac â brenin Denmark. Y tri phenadur hyn a ffurfiasant gynghrair yn erbyn Siarl XII., brenin Sweden, a phenderfynodd Pedr gymeryd oddiarno daleithiau Ingria a Carelia; dymunai Augustus adenill Esthonia a Livonia; ac ewyllysiai Denmark adgymeryd Holstein a Sleswick. Pedr a oresgynodd Ingria gyda 60,000 o filwyr; a chan ei fod yn awyddus i gael esgus dros ei weithrediadau, y goreu a allai gael oedd fod gormod o dâl wedi cael ei godi am ymborth ei lysgenadon tra yn pasio trwy y dalaeth hono ar eu ffordd i Holland; nid anghofiodd grybwyll hefyd iddo ef ei hun gael ei ddirmygu trwy wrthod iddo gael golwg ar amddiffynfeydd Riga!

Oddeutu diwedd mis Medi, Pedr a warchaeodd ar Narva, tref gaerog ar yr afon Narowa, yr un adeg ag yr oedd Siarl yn terfynu y rhyfel â Denmark. Wedi darfod hyny, daeth i waredu Narva, ond nid oedd ganddo ond 9000 o filwyr gydag ef. Pedr, wedi synu efallai fod y lle yn dal allan mor hir, ond heb amheuaeth na lwyddai yn y pen draw, a adawodd ei fyddin yn gwersyllu o flaen Narva, ac a aeth i gyfarfod byddin o agos i 30,000 o wŷr, y rhai yr anfonasai am danynt i'w gynorthwyo. Nid yw yn hawdd rhoddi rheswm paham y gwnaeth hyn; oblegyd yn ddiau yr oedd mwy o angen am yr ymerawdwr gyda'r brif fyddin, oddeutu 60,000 o wŷr, o flaen Narva. Yn ei absenoldeb, ar y 19eg o Dachwedd, daeth Siarl i fyny i Narva, a chan gymeryd mantais ar ystorm ddychrynllyd o eira, yr hon a gurai yn union i wynebau y Rwssiaid, syrthiodd arnynt, a chyda'i fyddin o 9000 a orchfygodd fyddin o agos i saith gwaith y nifer hwnw. Cymerwyd oddeutu 40,000 yn garcharorion; ac o'r diwedd darganfyddwyd anghyfleustra y peisiau hirion, oblegyd rhwystrent i nifer mawr o honynt—redeg ymaith! Ni fu erioed orthrechiad mor llwyr, er i'r ymerawdwr gymeryd y peth yn hynod dawel. "Gwn yn eithaf da," meddai, "y bydd gan y Swediaid fantais arnom am hir amser; ond bydd iddynt o'r diwedd ein dysgu ni i'w curo hwynt."

Ar yr achlysur o'r gorchfygiad hwn, cyfansoddodd yr offeiriaid weddi at Sant Nicholas, yr hon a offrymwyd i fyny yn gyhoeddus. Erfyniai am ei gymhorth yn erbyn y "dinystrwyr arswydus, taeog, dychrynllyd, ac anorchfygol" hyn, y rhai a syrthiasent arnynt "fel llewod ac eirth wedi eu hyspeilio o'u rhai ieuangc—yn eu dychrynu, eu clwyfo, a'u lladd hwynt wrth y miloedd"—a chyhoeddi nas gallai y fath

drychineb fod wedi disgyn arnynt ond trwy "swyngyfaredd a dewiniaeth." Pa fodd bynag, ni arosodd Pedr am help Sant Nicholas. Efe a ffurfiodd gynghair â breninoedd Denmark a Poland, ar iddynt ei gynorthwyo â milwyr, a chadw i fyny y cweryl â Siarl XII.; ar yr un pryd efe a doddodd glychau eglwys a mynachlog Moscow i fwrw cyflegrau, ac a wnaeth bob parotoadau anghenrheidiol gogyfer â'i ryfelgrych yn y gwanwyn. Ond ynghanol hyn oll, ni chollodd efe ei olwg ar y cynlluniau ag oeddynt i ddwyn eu ffrwyth yn amser heddwch. Ar yr adeg hon yr oedd yn sefydlu ysbyttai ac ysgolion, yn adeiladu gweithfaoedd at wneyd lliain a phapur, ac yn dwyn drosodd ddefaid o Sacsoni, gan gasglu ynghyd ofaint, eurych, a chrefftwyr o bob dysgrifiad, ac archwilio mwngloddiau Siberia am fwnau.

## CATHERINE—ST. PETERSBURG—CYMERYD NARVA.

Nid ein bwriad yw croniclo y brwydrau a'r gwarchaeadau yn ystod y flwyddyn nesaf a'r un ganlynol, ond bydd i ni nodi un o honynt yn fanwl, am iddi fod yn achlysur i ddwyn i sylw Pedr berson a gymerodd ran fawr yn ei holl helyntion dyfodol. Marienberg, tref fechan ar gyffiniau Ingria a Livonia, a warchaeid gan fyddin Pedr, ac a roddwyd i fyny yn anamodol. Naill ai trwy ddamwain neu yn fwriadol, y Swediaid a'i hamddiffynent a osodasant dân yn yr ystorfa bylor, yr hyn a gythruddodd y Rwssiaid i'r fath raddau fel y dinystriasant y dref, gan gludo ymaith y trigolion. Yn mysg y carcharorion yr oedd geneth ieuangc oddeutu unarbymtheg oed, Livoniad o enedigaeth, yr hon a ddygid i fyny o elusen yn nhŷ gweinidog Lutheraidd. Nid oes un lle i feddwl ei bod erioed wedi byw mewn uwch sefyllfa nag fel morwyn yn y teulu; ond dywedir ei bod wedi ymbriodi â milwr Swedaidd, yr hwn a laddwyd yn y gwarchae. Dygwyd y weddw amddifaid i wersyll un o'r cadfridogion Rwssiaidd. Pa bryd yn fanwl y gwelodd Pedr hi gyntaf, nis gellir byth ei wybod; ond yr hanes tebycaf ydyw, ei bod yn cario o amgylch ffrwythau sych a gwirodydd yn mhabell y Tywysog Menzikoff, ac mai yno y darfu i'r gaethes Livonaidd, yr hon a adnabyddid wrth yr enw Martha, dynu sylw yr ymerawdwr y tro cyntaf. Yn ei ddull arferol, pan fyddai wedi ei foddhau gan foesau a gwynebpryd rhywun, efe a ymddiddanodd â hi, a chafodd allan ei bod yn feddiannol ar ddealltwriaeth uwchlaw y cyffredin. At hyn hefyd yr oedd yn meddu tymher fywiog a siriol, calon garedig, a thymher addfwyn. Diameu fod Pedr wedi gweled mai hi oedd y ddynes a wnelai y tro iddo, yn un a allai gydymdeimlo âg ef yn ei gynlluniau—yn fyr, i fod yn wraig iddo. Nid oedd iselder ei genedigaeth yn un rhwystr iddo ef; yr oedd ganddo awdurdod i'w chodi i'r safle uwchaf yn yr ymerodraeth; ac felly, wrth yr enw Catherine, yr hwn a fabwysiadodd yn awr, efe a'i priododd, yn gyntaf yn ddirgelaidd, ond yn mhen ychydig flynyddau gyda rhwysg a mawredd ymerodrol. Fel hyn y dewisodd ei gydymaith ar yr orsedd, a'i olynydd ynddi ar ei ol.

Yn fuan ar ol y pethau hyn—1700—bu i farwolaeth y "patriarch," neu ben yr Eglwys Roeg, roddi iddo gyfleustra i ddechreu rhai diwygiadau iachus yn y sefydliad hwnw. Yn gyntaf, efe a ddiddymodd swydd y patriarch, ac a osododd ei hun yn ei le, heb unrhyw ragbarotoad, am y tybiai nad oedd dim a allai yr offeiriaid ddysgu iddo ag oedd arno eisiau ei wybod. A diau nad oedd dosparth o ddynion a ddysgent fod sancteiddrwydd yn hanfodi mewn barf, a'r rhai a arferent roddi llythyrau cymeradwyol at eu sant achlesol yn nwylaw pobl wedi meirw pan yn gorwedd yn eu heirch, yn debyg o gael llawer o barch gan ddiwygiwr mor enwog a Phedr I.

Yr argraffwasg, yr hon a ddygasid gan Pedr i Rwssia, a fwriai allan bob cableddau arno; a galwai yr offeiriaid ef yn Anghrist. Ond yr oedd ychydig yn ei amddiffyn ef rhag y cyhuddiad hwn, eithr yn unig am nad oedd y rhif 666 yn ei enw, ac nad oedd ganddo nod y bwystfil!

Oddeutu yr amser yma cafodd yr ymerawdwr gyfleustra rhagorol i ddangos fod arferion newydd yn gyffredinol yn well na hen rai. Ar yr achlysur o briodas un o'i chwiorydd, efe a wahoddodd brif foneddigion a boneddigesau Moscow i ddyfod iddi, a gorchymynodd iddynt ymwisgo mewn dillad henafol. Gweinyddid y ciniaw yn ol dull yr unfed ganrif ar bymtheg. Yn ol hen ofergoeledd, gwaherddid cyneu tân ar ddiwrnod priodas; felly, er ei bod yn auaf, ni oleuwyd tân. Gynt ni byddai y Rwssiaid yn yfed gwin, ac felly ni ddarparwyd dim; a phan oedd y gwahoddedigion yn grwgnach oherwydd y trefniadau anarferol, Pedr a ddywedodd wrthynt, "Dyma ddefodau eich hynafiaid, ac yr ydych yn dyweyd mai hen ddefodau yw y goreu"—gwers ag oedd yn fwy grymus iddynt nag unrhyw ymresymiad mewn geiriau.

Wedi cael y taleithiau oedd arno eisiau, dechreuodd Pedr adeiladu Petersburg; yn nghyflawniad yr hwn orchwyl efe a orchfygodd anhawsderau a fuasent yn ddigon i

ddigaloni unrhyw ddyn arall. Y llecyn a ddewisodd ydoedd morfa truenus, y naill haner ohono o dan ddwfr, heb goed, clai, na cherig, nac unrhyw ddefnyddiau adeiladu; yr oedd y tir yn ddiffrwyth, a'r hinsawdd braidd mor oer a phegwn y gogledd. Y mae y penderfyniad i adeiladu dinas mewn lle fel hyn wedi cael son am dano bob amser fel gweithred dra annoeth; oblegyd, yn ychwanegol at yr anfanteision ereill, yr oedd yn agored i gael ei orlifo gan ddyfroedd y forgaingc, os chwythai y gwynt yn hir o'r de-orllewin, yn enwedig os dygwyddai chwythu felly pan fyddai rhew yr afon Neva yn cael ei doddi gan wres yr haf.

Pa un a oedd Pedr yn hysbys o'r anfanteision hyn ai peidio nid yw yn gwbl hysbys. Y peth sydd sicr ydyw, er gwaethaf pobpeth, ei fod wedi parhau i adeiladu St. Petersburg, yr hon, o dan ei egnïon rhyfeddol, a ddaeth yn fuan yn ddinas ysblenydd, ac yn gyfaddas i wneyd masnach â'r holl fyd. Yr hyn a ddechreuwyd ganddo ef a gwblhawyd gan ei olynwyr; ac y mae St. Petersburg erbyn heddyw yn alluog i gystadlu mewn ardderchogrwydd gydag un ddinas yn Ewrop. Er na chafodd erioed lawer o niwaid trwy orlifiadau, fel yr ofnid, y mae ar amryw achlysuron wedi cael ei gosod mewn perygl mawr, a'r trigolion mewn perygl hefyd.

Prif wrthymgeisydd Pedr oedd Siarl XII. o Sweden, un o filwyr mwyaf galluog yr oes hono. Y mae yn amlwg nad oedd gan Siarl ddim mwy uchel yn ei natur nag a berthynai i ymladdwr pen ffordd. Yr oedd yn byw fel pe buasai dynion wedi dyfod i'r byd i ryfela, a dim arall. Nid oedd ganddo un meddylddrych am y fath beth a heddwch. Chwarddai am ben pob cysylltiadau cymdeithasol a theuluaidd, a gwnai wawd o dreialon mwyaf cyfyng y teimladau dynol. Pedr, ar y llaw arall, ni chefnogai ryfel, ond yn unig er dwyn yn mlaen ryw amcan mawr arall. Tra yn ymladd brwydrau, yr oedd ar yr un pryd yn cynllunio dinasoedd, yn sefydlu ysbyttai ac ysgolion, yn ffurfio camlesydd, yn adeiladu pontydd, ac yn trafaelio o gwmpas i arolygu pobpeth ei hunan, dan bob amgylchiadau, ac yn mhob hinsawdd; a thrwy hyny efe a ddinystriodd ei gyfansoddiad, gan hau hadau yr afiechyd a'i cariodd ef ymaith yn mlodau ei ddyddiau.

Tra yr oedd Siarl yn brysur mewn lleoedd ereill, cymerodd Pedr y cyfle i ail ymosod ar Narva. Gwarchaeodd hi trwy y môr ac ar y tir, er fod lluaws mawr o'i filwyr yn Poland, ereill yn amddiffyn y gweithiau yn St. Petersburg, ac adran arall o flaen Derpt. Ond ar ol lluaws o ymosodiadau ar un tu, a gwrthwynebiad penderfynol ar y tu arall, Narva o'r diwedd a gymerwyd, ac yr oedd yr ymerawdwr yn mhlith y rhai blaenaf a aethant i mewn i'r ddinas, a'i gleddyf yn ei law. Rhaid fod ei ymddygiad ar yr achlysur hwn wedi enill iddo barch, ac hyd yn nod serch ei ddeiliaid newydd. Yr oedd y gwarchaewyr wedi gwthio eu ffordd i'r ddinas, lle yr oeddynt yn lladrata ac yn ymarfer pob rhysedd ag y mae milwyr cynddeiriog yn alluog o hono. Rhedai Pedr o heol i heol, achubodd amrwy ferched o ddwylaw y milwyr creulon, a thrwy bob moddion ymdrechodd roddi pen ar drais a lladdedigaeth, gan ladd, â'i law ei hun, ddau o'r mileiniaid a wrthodasent ufuddhau i'w orchymynion. Aeth i mewn i neuadd y dref, lle yr oedd y dinaswyr wedi ffoi yn dyrfaoedd am ddyogelwch, ac wedi gosod ei gleddyf gwaedlyd ar y bwrdd, efe a waeddodd, "Nid yw y cleddyf hwn wedi ei ystaenio â gwaed eich cyd-ddinaswyr, ond â gwaed fy milwyr fy hun, yr hwn a dywelltais er mwyn achub eich bywydau chwi!"

## BRWYDR PULTOWA.

Yr oedd Pedr erbyn hyn, wedi cael yr hyn a ddymunasai, yn awyddus am heddwch; ond y mae trais bob amser yn cenhedlu awydd am ad-daliad; ac nid oedd Siarl mewn un modd yn foddlawn i golli darn o'i diriogaeth heb ychwaneg o ymladd. Efe a benderfynodd wneyd ymgyrch i Rwssia, a gosod telerau heddwch i lawr yn Moscow. Nid oedd Pedr, yr hwn a wyddai yn dda am natur gwlad Rwssia a'i thrigolion, yn cael ei ddychrynu yn y gradd lleiaf gan hyn. Yr oedd ei ddealltwriaeth clir yn dangos iddo ef yr anhawsderau ag y byddai i hinsawdd lem y wlad, a'i heangder dirfawr, ei osod o flaen y fyddin ymosodol, a chymerodd ei amser yn bwyllog i gynyddu yr anhawsderau hyn. Yr oedd byddin Siarl yn anrheithio y wlad lle y delent, ac yn rhoddi i farwolaeth gannoedd o'r werin, y rhai a ddrwgdybient o ddirgelu y grawn a phob mathau ereill o ddefnyddiau ymborth.

Yr ymerawdwr a'i fyddin a enciliasant yn raddol o flaen y goresgynwyr—felly yn eu hudo, o gam i gam, i ganolbarth gwlad ddiffrwyth, nes yr oedd Siarl a'i fyddin wedi ymgolli yn nghanol anialwch hen wlad y Scythiaid. Ond yr oedd sefyllfa yr ymerawdwr yn wahanol iawn i hyn. Yr oedd efe gartref, adnabyddai hyd yn nod yr anialwch, ac yr oedd mewn cymundeb dyogel a chyfleus gyda'i ddinasoedd a'i ystor–

feydd ei hun. Yr oedd ei gan' mil o wŷr wedi cael darparu ar eu cyfer yn dda, a chyn i eira y gauaf ddechreu disgyn, yr oeddynt wedi myned i wersylloedd cysurus. Oddeutu yr amser yma, enciliodd Muzeppa, swyddog defnyddiol yn myddin Pedr, at Siarl, yr hyn a barodd i'r olaf newid ei gynllun i raddau, sef peidio myned i Moscow, ond yn gyntaf oresgyn gwlad Ukraine, tiriogaeth ffrwythlawn yn gorwedd rhwng hen Boland a Moldavia, ac yr oedd y pryd hwnw, fel yn awr, yn perthyn i Rwssia. Mynai rhai o'r swyddogion Swedaidd gan Siarl ymbwyllo, a myned i ymwersyllu goreu y gallent am y gauaf. Ond na; efe a fynai fyned yn mlaen; ac wedi colli miloedd lawer o'i wŷr trwy oerni, newyn, afiechyd, a thrueni o bob math, gwarchaeoedd ar Pultowa, tref yn Ukraine, yn mis Mai, 1709, gyda gweddill ei fyddin o 80,000, yn awr yn cyfrif llai na 20,000.

Ar y 15fed o Fehefin daeth yr ymerawdwr i gynorthwyo y dref; trwy ystryw, yr hyn a dwyllodd y Swediaid, efe a lwyddodd i gael 2000 o wŷr i mewn iddi; ac yn mhen ychydig ddyddiau ar ol hyny, bu i frwydr waedlyd Pultowa gymeryd lle, yn mha un y llwyr orchfygwyd ac y dinystriwyd byddin y Swediaid. O ran ei heffeithiau yr oedd y frwydr hon yn un o'r rhai pwysicaf i Ewrop a ymladdwyd erioed. Pe buasai Pedr wedi syrthio, nid oes un amheuaeth na buasai ei bobl wedi myned yn ol i farbareiddiwch, o'r hwn yr oedd efe yn ymdrechu eu tynu, a buasai raid i Denmark, Poland, a Rwssia, dderbyn eu cyfreithiau gan y Swediad creulawn.

Ar ol y frwydr, Pedr a wahoddodd y swyddogion Swedaidd a gymerasid yn garcharorion i gydginiawa âg ef, ac yfodd eu hiechyd fel "ei feistriaid ef yn y gelfyddyd o ryfela." Yr oedd ei eiriau daroganol yn Narva yn awr wedi eu gwirioneddoii: yr oedd y Swediaid wedi dysgu i'r Rwssiaid eu curo. Pa fodd bynag, anfonwyd y nifer mwyaf o'r "meistriaid" hyn—yn swyddogion a milwyr cyffredin—i Siberia; canys yr oedd Siarl wedi gwrthod cyfnewid carcharorion cyn y frwydr, ac ni wnai Pedr hyn ar ol y frwydr. Yn y cyfamser diangodd Siarl i Bender, a chymerodd noddfa yn mhlith y Tyrciaid. Trwy ei genadon efe a ddangosodd i'r Sultan fel yr oedd gallu Rwssia yn cynyddu, ac adfywiodd ynddo y gobaith o adenill Azoph, a gyru y Rwssiaid o'r Môr Du; ac yn y diwedd llwyddodd i gael gan y Sultan gyhoeddi rhyfel yn erbyn yr ymerawdwr. Dechreuodd y Tyrciaid y cweryl trwy garcharu teyrngenad Rwssia, ac ar hyny cododd Pedr fyddin, ac a ymdeithiodd i gyffindiroedd Twrci gyda 40,000 o wŷr.

Wedi i Pedr groesi yr afon Pruth, cafodd ei hun yn agos i Jassy, wedi ei gau i fyny rhwng byddin o Dyrciaid ac un arall o Dartariaid, gyda ffrwd gref yn llifo rhyngddo â'i diriogaethau ei hun, heb braidd ddim ymborth, ac heb ganfod y moddion i gael peth; ac fel hyn y delid y Rwssiaid gan elynion a rifent yn agos i 200,000. Eto ymladdasant yn ffyrnig—math o frwydr yn myned yn mlaen yn barhaus am dri diwrnod, yn ystod pa amser y collwyd 18,000 o wŷr. Yr oedd sefyllfa yr ymerawdwr yn arswydus. Gallai un ddychymygu ing ei yspryd wrth feddwl y gallasai ei hunan gael ei ddwyn i Gaercystenyn, a'i arddangos fel carcharor. Eto yr oedd encilio yn amhosibl; a diangc rhag angeu neu gaethiwed a ymddangosai yr un mor anobeithiol.

Yn y cyfyngder yma cauodd yr ymerawdwr ei hun i fyny yn ei babell, naill i ymgynghori âg ef ei hun, neu ynte i guddio ei deimlad dwfn. Rhoddodd orchymyn pendant nad oedd neb i'w aflonyddu; ond anturiodd ei wraig, yr hon a gyfranogasai o'i beryglon, ac a wyddai ei galon, i droseddu y gorchymyn hwn, a gwnaeth ei ffordd at ei ochr. Cafodd ef mewn dirdyniadau arswydus—ymosodiad o'r ffitiau yr oedd yn ddarostyngedig iddynt wedi cael eu dwyn arno gan ing ei feddwl. Catherine, yr hon a feddai ar allu neillduol i'w dawelu ar yr achlysuron hyn, a gymhwysodd y cyfferi arferol; a chan ymddangos yn siriol, desgrifiodd y cynllun a ddaethai i'w meddwl hi fel y moddion i ddiangc rhag y dinystr oedd yn eu bygwth.

Yr oedd y meddylddrych yma mor syml a naturiol, dan yr amgylchiadau, fel y mae yn syndod na fuasai wedi ymgynyg i feddwl Pedr neu ei gadflaenoriaid. Cynygiai fod cais i gael ei wneyd at ymheddychiad; ac er cydymffurfio â'r dull o gael ymddiddan â phrif weinidog y Sultan, sef trwy anfon anrhegion iddo, hi a dynodd ei pherlau, ac a chwiliodd yr holl wersyll am bethau a fuasent yn deilwng o dderbyniad ganddo.

Catherine ei hun hefyd a ddewisodd y swyddog a ystyriai yn fwyaf deallus ac o ymddiried i fyned ar y neges bwysig hon at y prif weinidog, a hi hefyd a'i cyfarwyddodd pa sut i weithredu. Ond trwy fod amryw oriau wedi myned heibio er pan ymadawsai, ofnid ei fod wedi cael ei ladd, neu ynte ei ddodi yn ngharchar; a chynaliwyd cynghor rhyfel, yn mha un yr ydym yn cael fod Catherine yn bresenol. Yn y cynghor hwn penderfynwyd, os byddai i'r Tyrciaid wrthod ymheddychu, yn hytrach na rhoddi eu harfau i lawr a thaflu eu hunain ar eu trugaredd, y byddai i'r Rwssiaid

beryglu eu bywydau trwy ymdrechu tori eu ffordd trwy y gelynion. Yn y cyfamser Pedr, yn anobeithiol o gael unrhyw ganlyniadau ffafriol oddiwrth y genadwri, a ysgrifenodd at ei senedd yn Moscow—"Os syrthiaf i ddwylaw y gelyn, nac ystyriwch fi mwyach yn benadur arnoch, ac nac ufuddhewch i unrhyw orchymynion a ddeuant atoch o'r lle y byddaf yn garcharor, hyd yn nod pe byddent wedi eu harwyddo â'm llaw fy hun. Os lleddir fi, dewiswch y teilyngaf yn eich mysg fel olynydd i mi."

Pa fodd bynag, ataliwyd y mesurau eithafol hyn trwy ddychweliad y genad, yr hwn a ddygai yr hysbysiad fod cytundeb heddwch anrhydeddus wedi cael ei gynyg gan y prif weinidog Tyrcaidd. Y mae pleidwyr Siarl XII. yn arfer bob amser son am ymddygiad y llywydd Tyrcaidd ar yr achlysur hwn fel llwfreidd-dra; ond ymddengys i ni ei fod wedi ymddwyn mewn dull urddasol a goleuedig, a'i fod, trwy gytuno i derfynu y rhyfel, wedi ystyried lles y wlad yn ganwaith mwy na phe buasai wedi aberthu rhagor o filwyr i wrthwynebu Pedr, a gyru y fyddin Rwssiaidd i eithafion. Darfu yr ymladd ar unwaith; ac yn fuan wedi hyny arwyddwyd cytundeb, yn ol pa un yr oedd Azoph i gael ei hadferu i'r Tyrciaid, y Rwssiaid i gael eu cau allan o'r Môr Du, y fyddin i encilio o'r tu hwnt i'r Danube, ac addewid am fynedfa rydd i Siarl XII. trwy Rwssia i'w wlad ei hun. Er cymaint o aberth oedd hyn i Pedr, fod gwasanaeth Catherine yn cael ei ystyried yn rhyfeddol a brofir tu hwnt i bob dadl; ac yn mhen rhai blynyddau ar ol hyny, pan oedd yn cael ei choroni yn ymerodres, Pedr a'i cydnabyddodd drachefn yn gyhoeddus, gan gyfeirio at yr "achlysur arswydus" yn y geiriau hyn—"Hynododd ei hun mewn modd neillduol trwy wroldeb a phresenoldeb meddwl uwchraddol i'w hystlen, yr hyn sydd yn berffaith hysbys i'r holl fyddin, ac i holl ymerodraeth Rwssia."

Yn 1715-16 ymbleserodd Pedr trwy gymeryd ail daith trwy Ewrop, gan gymeryd Catherine gydag ef. Ymwelodd â Saardam, lle y buasai, ddeunaw mlynedd yn ol, yn gweithio fel saer llongau; a lle y derbyniwyd ef, yn awr gyda phob arddangosiadau o barch a serchlondeb. Dywedir iddo ddangos i'r ymerodres, gyda llawer o ddyddordeb, y caban bychan yn mha un y buasai yn gweithio ac yn byw. Bu yn Holland am dri mis, ac wedi llwyddo i wneyd cynghrair â Ffraingc, efe a ddychwelodd i St. Petersburg.

### PRAWF A MARWOLAETH ALEXIS.

Yr ydym yn awr yn dyfod at gyfran dywyll ac aneglur yn mywyd Pedr Fawr. Ymddengys fod Alexis, mab Pedr o'i wraig ysgaredig, yn meddu yn naturiol ar ddealltwriaeth egwan, yn gysylltiedig â'r math hwnw o gyfrwysdra isel ag sydd yn ei ddylyn yn fynych, heb fod unrhyw ragoriaethau moesol i wrthbwyso y cyfryw ddiffygion; ac yn anffortunus nid oedd ei addysg wyrgam ond wedi ei gadarnhau yn ei ddrygedd a'i ffolineb. Crybwyllwyd yn barod fod Pedr, ar ddiddymiad y briodas, wedi gadael i'w fab aros dan ofal ei fam. Y canlyniad fu iddo, er yn ieuangc, gael ei osod dan ddylanwad yr offeiriaid, y rhai nid yn unig a lanwasant ei feddwl â syniadau coelgrefyddol, ond dysgasant ef fod y cyfnewidiadau yn y llywodraeth ac arferion y bobl, y rhai a wnaethid gan yr ymerawdwr, yn weithrediadau croes i feddwl Duw. Y mae yn amhosibl peidio cydymdeimlo â Phedr yn y siomedigaeth a raid ei fod wedi ei deimlo wrth gael ei unig fab yn greadur dwl, drygionus, ac ofer, oblegyd yr oedd yr unig fab a anesid iddo o Catherine wedi marw pan yn faban.

Pan oedd Alexis oddeutu ugain mlwydd oed, sef tua'r amser y darganfu Pedr y drwg a wnaethai, efe a ymdrechodd ei ddiwygio, trwy osod mathau ereill o bobl o'i amgylch, a'i anfon i drafaelio. Pan ddychwelodd yn ol, efe a'i priododd â thywysoges brydferth a deallus o deulu Brunswick, yr hon a fu farw cyn pen pedair blynedd, o doriad calon, oherwydd creulondeb, esgeulusdod, a meddwdod ei gŵr. Ar ol ei marwolaeth, Pedr a ysgrifenodd lythyr at ei fab, yr hwn a derfynai yn y geiriau hyn:—"Mi a arosaf ychydig amser eto, i edrych a fydd i chwi ymddiwygio; ac os na wnewch, gwybyddwch y bydd i mi eich tori o'r olyniaeth, fel y byddwn yn tori ymaith aelod diles. Na ddychymygwch nad wyf yn meddwl ond eich dychrynu; na phwyswch ar y ffaith mai chwi yw fy unig fab; canys os na arbedaf fy mywyd fy hun dros fy ngwlad a'm pobl, pa fodd yr arbedaf chwi? Byddai yn well genyf adael fy nheyrnas i dramoriad a'i teilyngai, nag i fy mab fy hun, yr hwn sydd yn gwneyd ei hunan yn annheilwng o honi." Ac mewn llythyr ar ol hyny Pedr a ddywedai, "Cymerwch eich dewis; naill ai gwneyd eich hun yn deilwng o'r orsedd, neu ynte ymgymeryd â bywyd mynach."

Ymddengys nad oedd Alexis yn foddlawn i wneyd y naill beth na'r llall, er yn ymddangos yn edifeiriol ar adegau. Pan oedd yr ymerawdwr ar gychwyn i'w daith trwy Germani a Ffraingc, efe a ymwelodd â'i fab, yr hwn oedd ar y pryd ar wely cys-

tudd. Y pryd hyn addawodd Alexis droi yn fynach, os adferid ei iechyd; ond mor gynted ag yr oedd ei dad allan o Rwssia, daeth yn berffaith iach, ac aeth yn mlaen yn ei hen fuchedd o derfysg ac ysbleddach. Cyrhaeddodd rhyw air am hyn at y tad. yr hwn a ysgrifenodd ato, gan ei orchymyn yn bendant naill ai iddo ymgymeryd â bywyd mynach, neu ynte ei gyfarfod ef yn Copenhagen. Alexis a benderfynodd fyned i Copenhagen, a chafodd arian gan Mensikoff i dalu ei drauL. Ond i Vienna yr aeth, a thrwy iddo beri cryn drwbl i ymerawdwr Germani, gorfu arno ymadael oddi yno am Naples. Ymddengys mai ei amcan ydoedd myned mor bell ag y gallai oddiwrth ei dad; ond nid oedd Pedr Fawr yn ddyn a gymerai ei drin fel hyn,—felly anfonwyd cenadon i'w gyrchu adref i Moscow. Wedi cyrhaedd yno, cynaliwyd cynghor ar y mater, yn Chwefror 1718, a dietifeddwyd ef yn gyhoeddus; profwyd ef ar y cyhuddiad o fod wedi bradwriaethu yn erbyn ei dad a'r deyrngadair gan nifer o seneddwyr a swyddogion milwrol. Wedi prawf hirfaith, efe o'r diwedd a gafwyd yn euog, a thraddodwyd dedfryd marwolaeth arno; ond y fath fu ei ddychryn pan y clywodd hyny, fel y syrthiodd i lewygfeydd, o'r rhai ni lwyr ymddadebrodd, a bu farw yn druenus yn y carchar ar y 7fed o fis Gorphenaf.

### MARWOLAETH PEDR FAWR.

Yn Ngorphenaf 1724, yr ydym yn ei gael yn arwain llynges yn erbyn Sweden, ac wedi cyflawni ei bwrpas, yn dychwelyd i Cronstadt, lle y gwnaeth arddangosfa o'i lynges. Treuliodd ei flynyddoedd diweddaf mewn dwyn ymlaen amryw welliantau mawrion a phwysig; yn mhlith y rhai y gellir nodi ei waith yn gwneyd darpariadau gogyfer â'r llifogydd a fygythient ei brifddinas newydd ar brydiau—estyn camlas Ladoga—sefydlu athrofa wyddonol—edrych i mewn i dreialon a chospedigaeth troseddwyr gwladol—cefnogi llafur y dosbarth a ffurfient gyfreithiau yr ymerodraeth—alltudio y Capuchiaid o Rwssia, a llunio cynghrair masnach o'r newydd â Sweden. Efe hefyd, yn 1724, a ddyweddïodd ei hoffus ferch Anne â'r Duc Holstein, wedi iddo yn gyntaf osod y goron ymerodrol, gyda rhwysg mawr, ar ben ei wraig Catherine, ar y 15fed o'r mis Mai blaenorol, fel arwydd o'i gariad a'i edmygedd. Darparodd hefyd fod i addysg briodol gael ei rhoddi i fab yr annedwydd Alexis, y fath ag a weddai i un a ddeuai yn y dyfodol yn ymerawdwr Rwssia.

Er fod iechyd Pedr wedi bod yn gwaethygu er's rhai misoedd, ymddengys fod ei farwolaeth wedi cael ei achlysuro gan weithred o ddyngarwch. Tua diwedd y flwyddyn 1724, pan yn myned i arolygu gefail a gwneuthurfa arfau yn Systerbeck, efe a ganfu fâd, yn llawn o filwyr a morwyr, mewn perygl ar y lan, ac anfonodd gwch ysgafn er eu cynorthwyo, yr hwn a ffaelodd yn ei anturiaeth. Yn benderfynol i gyrhaedd ei amcan, efe a aeth ei hunan at y lle; a chan na allai ei lestr eu cyrhaedd, efe a neidiodd i'r dwfr, ac a rydiodd at y cwch, ac a lwyddodd i'w gael oddiar y lan. Anwyd trwm a ddylynodd y weithred beryglus, ond dyngarol hon, ac yn ychwanegol at yr afiechyd poenus y buasai yn dyoddef o dano yn flaenorol, a barodd i ymddangosiadau o'r fath mwyaf angeuol amlygu eu hunain. Daeth y pethau hyn yn mlaen mor ddisymwth yn y diwedd, ac yr oedd ei ddyoddefiadau mor fawr, fel y bu yn analluog i amlygu ei ddymuniadau olaf fel y dewisai. Nid oes, er hyny, un amheuaeth nad oedd yn bwriadu apwyntio ei wraig fel ei olynydd. Yr oedd ei eiriau olaf, mor belled ag y gellid eu deall, yn arwyddocâu hyny: ac ar ddydd ei farwolaeth, hi a'i dylynodd ef heb i neb ei gwrthwynebu. Catherine a wyliodd wrth ochr ei wely, heb ei adael o gwbl am y tair noson olaf o'i fywyd; ac efe a anadlodd yr anadl olaf yn ei breichiau ar y 28ain o Ionawr, 1725, ac efe ond yn unig yn dair ar ddeg a deugain oed.

Yr oedd Pedr Fawr yn ddyn o athrylith nerthol a gwreiddiol; gwnelai bobpeth ei hunan, ac ni fyddai byth yn offeryn yn llaw neb arall. Tymherid ei wresogrwydd gan ddoethineb a phenderfyniad. Tarddai ei golliadau oddiar y gallu annherfynol oedd yn ei ddwylaw, a'i ddiffygion addysgiadol. Yr oedd ei wasanaeth i genedl anwybodus a barbaraidd o'r gwerth mwyaf; yn wir gellir dyweyd fod yr holl ddaionus bethau a feddiannir gan Rwssia yn awr, heb unrhyw ormodiaith, wedi tarddu oddiwrtho ef. Oni bai efe gallasent fod heddyw mor anghelfydd a diallu ag oeddynt pan y cafodd afael arnynt; ac y mae gweithrediadau fel yr eiddo ef yn ymestyn eu dylanwad yn mhell i'r dyfodol, ac yn enill enw na dderfydd tra pery y ddaear!

———o———